**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn dwyn y teitl Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

**10 Mawrth 2016**

---

## Y cyd-destun

Gwnaethom yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn parchu canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Yr her sy'n ein hwynebu i gyd nawr yw gofalu ein bod yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru. Gyda'r nod hwn, yn yr 8 mis ers y refferendwm, gwnaed llawer iawn o waith o fewn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid, gwaith sydd wedi bod yn hanfodol wrth sicrhau y caiff blaenoriaethau Cymru eu cynrychioli a'u diogelu mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill.

Aethom ati ar unwaith i geisio dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU cyn cychwyn proses Erthygl 50, gan ddechrau gyda'r 6 prif flaenoriaeth a gyhoeddais y diwrnod ar ôl y refferendwm, blaenoriaethau yr ydym wedi gwneud peth cynnydd da arnynt. Rydym wedi parhau i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu diogelu drwy gyfrannu'n adeiladol at gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn yr hydref a thros y gaeaf. Roedd cyhoeddi ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, yn garreg filltir hollbwysig yn ein gwaith sy'n anelu at sicrhau y caiff blaenoriaethau Cymru eu deall yn llawn a'u hadlewyrchu yn safbwynt negodi'r DU. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar y cyd gyda Phlaid Cymru ac mae'n cynnig cynllun cynhwysfawr a chredadwy ar gyfer y trafodaethau gyda'n partneriaid yn Ewrop ar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd - yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n rhoi pwyslais ar flaenoriaethau Cymru ond sydd wedi'i lunio i weithio ar gyfer y DU gyfan.

Mae'n cyflwyno chwe maes allweddol i roi sylw iddynt yn y trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd:

- pwysigrwydd mynediad llawn a dirwystr i'r **Farchnad Sengl** i gefnogi busnesau, a sicrhau swyddi a ffyniant Cymru yn y dyfodol;
- gwerthfawrogi'r cyfraniad enfawr y mae pobl o wledydd eraill yn ei wneud i'r economi ac i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ar yr un pryd ag ymateb i bryderon ynghylch agweddau ar fewnfudo drwy bolisi pragmataidd ac egwyddorol ar gyfer **mudo** yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac osgoi cam-fanteisio ar weithwyr;
- mewn perthynas â **chyllid a buddsoddi**, yr angen i Lywodraeth y DU gyflawni addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm na

fyddai Cymru'n colli ceiniog o gyllid o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd;

- yr angen am berthynas **gyfansoddiadol** sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU – yn seiliedig ar barch tuag at ein gilydd, dod i gytundeb drwy gydsyniad, a mecanwaith datrys anghydfodau annibynnol newydd – ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd;
- yr angen i gadw'r **mesurau diogelu a'r gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol** yr ydym yn falch ohonynt yng Nghymru, yn enwedig hawliau gweithwyr, pan na chaiff y rhain eu gwarantu bellach drwy aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd; a
- phwysigrwydd ystyried **trefniadau pontio** i sicrhau na fydd y DU yn syrthio dros y dibyn yn ei pherthynas economaidd ac ehangach gyda'r Undeb Ewropeaidd os na fydd trefniadau tymor hwy wedi eu cytuno pan fydd yn gadael.

Teimlwn ein bod yn cael effaith wirioneddol ar ddatblygiad safbwynt negodi'r DU. Mae arwyddion bod Llywodraeth y DU, mewn rhai meysydd, wedi symud tuag at ein safbwynt ni – er enghraifft, mewn perthynas â'n galw clir a chyson am fynediad llawn a dirwystr at y farchnad sengl (er eu bod yn defnyddio'r derminoleg "freest and most frictionless") a phwysigrwydd proses bontio esmwyth.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, adroddiad rwy'n ei ystyried yn gyfraniad pwysig ac adeiladol i gefnogi ein gwaith o sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru.

**Cyflwynir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl dystiolaeth y mae'n seilio'i safbwynt arni gan gynnwys manylion y gwaith sydd wedi'i wneud ar fodelu senarios ym mhob sector a'r astudiaethau y mae wedi'u comisiynu'n fewnol a chan ffynonellau allanol.

**Ymateb : Derbyn mewn egwyddor**

Yn ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, cyhoeddasom dystiolaeth helaeth - yn arbennig ar effeithiau economaidd posibl Brexit ar Gymru, gan gynnwys dadansoddiad sectoraidd, a rhagolygon macro-economaidd ar wahanol senarios, a hefyd ar Fudo o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru - sy'n yn gosod y sylfeini i'n safbwynt polisi. Drwy hyn, rydym wedi rhoi llawer mwy o dystiolaeth na Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r safbwynt polisi y mae'n ei ddatblygu. Byddwn yn parhau i gyhoeddi dadansoddiadau economaidd a dadansoddiadau eraill yn rhagweithiol yn y dyfodol, gan gynnwys tystiolaeth ar draws sectorau neu dystiolaeth sy'n benodol i sectorau fel y bo'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff costau dadansoddi a chyhoeddi eu talu yn y lle cyntaf drwy flaenoriaethu o fewn y cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad manwl o'r newidiadau gweinyddol y mae wedi'u gwneud ers y refferendwm a goblygiadau ariannol y newidiadau hyn. Wrth wneud hyn, dylai fod yn glir am y newidiadau sydd wedi digwydd yn uniongyrchol yn sgil canlyniad y refferendwm a'r newidiadau a oedd eisoes yn yr arfaeth neu ar y gweill. Dylai'r asesiad hwn gynnwys manylion newidiadau yng Nghymru ac yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel.

**Ymateb : Derbyn**

Fel yr amlinellwyd yn un o wrandawiadau blaenorol y Pwyllgor, cymerodd Llywodraeth Cymru gamau cynnar ar ôl y refferendwm i sefydlu Tîm Trefniadau Pontio Ewropeaidd penodedig sy'n arwain ar y gwaith o ddatblygu polisi strategol ac sy'n cydlynu gwaith cyfarwyddiaethau Llywodraeth Cymru ar Brexit. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnwys 13 aelod o staff, ac fe'i datblygwyd o'r hyn a oedd gynt yn Gangen Polisi Undeb Ewropeaidd fechan. Rhagwelir y bydd costau gweinyddol y tîm yn y flwyddyn hon tua £500,000. Mae'r tîm newydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm presennol ym Mrwsel, sy'n gweithio ar faterion pontio yn ogystal ag yn cynnal busnes parhaus yr Undeb

Ewropeaidd. Ystyriwn fod rôl bwysig barhaus gan y tîm ym Mrwsel, yn enwedig gyda dechrau'r trafodaethau gyda phartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd. Fel y cyfeirir ato yn yr ymateb i argymhelliad 3 isod, nid ydym eto yn gwybod y manylion ynghylch sut y cynhelir y trafodaethau a beth fydd ein hymwneud ni ynddynt. Mae'r lefelau staffio yn swyddfa Brwsel yn newid dros amser wrth i swyddi ddod yn wag a chael eu llenwi. Ar hyn o bryd mae 6 aelod o staff yn swyddfa Brwsel yn gweithio ar bolisi, o'i gymharu â 4 yr adeg hon y llynedd. O fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol sefydlwyd tîm bach hefyd ers y refferendwm i gefnogi'r gwaith o bontio o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn fwy cyffredinol, mae cyfarwyddiaethau Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r adnoddau presennol ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â Brexit yn benodol. Mae amrywiaeth eang o staff yn gweithio ar faterion sy'n ymwneud â phontio o Ewrop ochr yn ochr â'r gwaith o ddarparu'r rhaglen lywodraethu gyffredinol, ac ymrwymiadau penodol o'i mewn, fel y cyflwynir yn *Symud Cymru Ymlaen*. O achos hynny, mae'n amhosibl nodi niferoedd neu gostau yr holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ar bontio o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae ymrwymiad sylweddol o ran staff ar draws meysydd gwaith eang gan gynnwys yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Economi a'r Seilwaith.

**Goblygiadau Ariannol** – Fel y disgrifir uchod. Caiff costau staffio eu talu yn y man cyntaf drwy flaenoriaethu o fewn y cyllidebau presennol.

### Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rôl y mae'n gweld ei swyddfa ym Mrwsel yn ei chwarae yn y trafodaethau.

**Ymateb : Derbyn**

Caiff trafodaethau pellach eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ar ran Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau gyda phartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn parhau i adolygu rôl swyddfa Brwsel yng ngoleuni'r trafodaethau hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn codi'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

### Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ei chofrestr risgiau inni ar gyfer pob maes lle y bydd Brexit yn effeithio ar ei gweithgarwch.

**Ymateb : Derbyn mewn egwyddor**

Canolbwyntiodd y Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* ar nifer o feysydd strategol lle nodwyd bod effeithiau posibl Brexit yn risgiau penodol. Ymysg y risgiau posibl hyn roedd: colli mynediad at y farchnad sengl a'r goblygiadau posibl mewn perthynas â masnach ryngwladol; lleihau'r mynediad at y gweithwyr a'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i gyfyngiadau ar fudo o'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd; toriadau i lefelau'r cyllid sydd ar gael i Gymru ar gyfer datblygu gwledig, datblygu economaidd rhanbarthol a meysydd eraill o ganlyniad i golli cyllid a geir ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd; materion cyfansoddiadol a'r risg y bydd Llywodraeth y DU yn 'cipio grym'; y bygythiad o gael gwared ar neu wanhau amddiffyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol; a'r posibilrwydd o fynd dros y dibyn os na roddir trefniadau pontio mewn lle yn gynnar yn y trafodaethau. Roedd y rhain yn adlewyrchu gwaith cynnar a wnaed gan adrannau dros yr haf ar y risgiau a'r cyfleoedd, gwaith a ddatblygwyd wedyn yn chwe blaenoriaeth strategol - gan adlewyrchu'n hasesiad o risgiau trawsbynciol - drwy ystyriaeth yn Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

Byddwn yn cynnal ymarfer asesu risg newydd wrth inni symud ymlaen at y cam nesaf o'r gwaith ar ôl cychwyn proses Erthygl 50 ac ar ôl i'r trafodaethau gyda phartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd ddechrau, a byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am y risgiau a'r mesurau lliniaru ar ôl i'r ymarfer hwn ddirwyn i ben.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim yn codi'n uniongyrchol o'r ymateb i'r argymhelliad a gyflwynir uchod.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae wedi'u cymryd er Mehefin 24 2016 i sicrhau ei bod yn cael gafael ar y swm mwyaf posibl o gyllid Ewropeaidd ac yn ei ddefnyddio cyn inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Ymateb: Derbyn**

Yn syth ar ôl canlyniad y refferendwm, ceisiodd Llywodraeth Cymru sicrwydd cadarn gan Lywodraeth y DU na fyddai Cymru yn colli ceiniog o gyllid Undeb Ewropeaidd hyd at ddiwedd persbectif ariannol yr Undeb Ewropeaidd sy'n rhedeg tan 2023. Cadarnhaodd Trysorlys y DU warantau dilynol ym mis Awst 2016 a mis Hydref 2016, gan danysgrifennu holl gyllid yr Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i brosiectau cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Cadarnhaodd y Trysorlys hefyd y caiff y lefel bresennol o daliadau uniongyrchol i ffermwyr (piler 1 PAC) ei chefnogi tan 2020.

Rydym yn hyderus y gallwn ddod â holl gyllid yr Undeb Ewropeaidd sydd ar gael i Gymru o dan raglenni 2014-2020 o fewn cwmpas y warant hon ac rydym yn gwneud cynnydd cryf gyda'n buddsoddiadau.

Rydym wedi cyflawni ein nod o fuddsoddi 60 y cant o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd mis Tachwedd 2016. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae'r ffigurau diweddaraf (diwedd Chwefror 2017) yn dangos ein bod wedi ymrwymo tua 64 y cant (£1.3 biliwn) o'n dyraniad £2 biliwn o gyllid Undeb Ewropeaidd i 149 o brosiectau, gan ysgogi buddsoddiad o £2.5 biliwn i gyd.

Ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, £594m yw'r swm a ymrwymwyd hyd yma (62% o werth y rhaglen), ac mae £361m o'r swm hwn yn gyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop hefyd wedi agor yn llawn bellach ac mae'n ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i ddiogelu swyddi yn y diwydiant pysgota ac i ddatblygu sector pysgota bywiog, cystadleuol a chynaliadwy yng Nghymru.

Ar draws pob un o'r rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd mae gennym ffrwd gref o fuddsoddiadau pellach yn yr arfaeth. Er enghraifft, ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, disgwyliwn fuddsoddi 80 y cant (£1.6bn) o'n dyraniad erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon a chyflawni ymrwymiad llawn erbyn dechrau 2019.

Mae gwarant Llywodraeth y DU hefyd yn cynnwys prosiectau a gefnogir drwy'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, gan gynnwys rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru, a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys Horizon 2020.

Mae rhaglen Iwerddon-Cymru, a reolir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn parhau i wneud cynnydd sylweddol gyda 50 y cant (€40m) o gyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi'i ymrwymo hyd yma. Mae Cymru hefyd wedi denu dros €54m o'r rhaglen Horizon 2020 gyda 112 yn cyfranogi. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd rhagweithiol er mwyn annog cyfranogiad parhaus yn y rhaglenni hyn. Er enghraifft, bydd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr posibl, yn enwedig o'r sector addysg uwch, y sector addysg bellach a'r sector preifat, yn mynychu ein digwyddiad Horizon 2020 blynyddol yng Nghaerdydd ar 30 Mawrth.

Mae ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, yn atgyfnerthu gwerth y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i Gymru a pha mor bwysig yw bod Cymru yn sicrhau cyllid yn eu lle gan Lywodraeth y DU dros y tymor hir, a hynny ar yr un lefel â'r hyn a gawn ar hyn o bryd - tua £370m y flwyddyn ar draws y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Rydym wedi dechrau siarad â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws Cymru i glywed barn gychwynnol am y dull gorau ar gyfer polisi rhanbarthol yng Nghymru y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac i ddysgu gwersi o arfer gorau ar draws y byd ac o

fuddsoddiadau blaenorol. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor hwn i Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru yn gyfraniad pwysig i'r drafodaeth honno.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi gwarantu y bydd yn tanysgrifennu pob un o brosiectau'r Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a gymeradwyir, neu sydd i'w gymeradwyo, yn ystod y cwrs busnes arferol cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r warant hon hefyd yn cynnwys y PAC, y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (gan gynnwys rhaglen Iwerddon Cymru) a dyfarniadau cyllid o dan y rhaglenni y mae'r Undeb Ewropeaidd yn eu rheoli'n uniongyrchol (gan gynnwys Horizon 2020).

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w chynnwys yn llawn wrth lunio'i safbwynt ar gyfer y trafodaethau. Dylai gymryd rhan yn uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli, neu â materion sy'n effeithio ar y meysydd hynny, gan ddefnyddio model Cyngor y Gweinidogion ar gyfer caniatáu i'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan.

**Ymateb : Derbyn**

Rwyf wedi pwysleisio ar sawl achlysur i Brif Weinidog y DU ac i eraill bod yn rhaid inni gael ein cynnwys yn llawn wrth lunio safbwynt y DU ar gyfer y trafodaethau, ac mae cyd-Weinidogion a swyddogion wedi bod yr un mor glir gyda'u Gweinidogion a'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU. Rydym yn parhau yn ymroddedig i ganfod tir cyffredin a safbwynt cyffredin i'r DU ar gyfer y trafodaethau wrth inni nesáu at y cyfnod negodi yn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ond mae angen o hyd am eglurhad a thrafodaeth sylweddol mewn perthynas ag amrywiaeth o bwyntiau. Bydd hyn yn cynnwys ein rôl ni yn y trafodaethau hyn.

Rydym wedi gwneud yn glir bod yn rhaid inni fod yn rhan o'r trafodaethau hyn yn arbennig o fewn y meysydd cymhwysedd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Ein safbwynt ni yw y dylem fod yn chwarae rhan weithredol yn y trafodaethau sy'n ymwneud â materion wedi'u datganoli, ac y dylem gael arsylwi'r trafodaethau yn eu cyfanrwydd. Bydd y cyd-destun y byddwn yn cymryd rhan ynddo hefyd yn dod yn fwy amlwg wrth i'r Undeb Ewropeaidd amlinellu ei fframwaith ar gyfer y trafodaethau hyn ar ôl cychwyn proses Erthygl 50.

Byddai'r model presennol o gynrychiolaeth y gweinyddiaethau datganoledig ar Gyngor y Gweinidogion a chyfarfodydd cysylltiedig – fel yr amlinellir yn y Concordat ar Gydgysylltu Polisi'r Undeb Ewropeaidd rhwng Llywodraeth y DU

a’r gweinyddiaethau datganoledig – yn fan cychwyn priodol ar gyfer dod i gytundeb ar ein rôl. Mae’r Concordat yn ei gwneud yn glir bod gennym rôl i’w chwarae yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion mewn trafodaethau sy’n berthnasol i faterion wedi’u datganoli ac y dylid ystyried caniatáu i Weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig fynychu oni bai fod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae costau’n cael eu talu yn y lle cyntaf drwy flaenoriaethu o fewn y cyllidebau gweinyddol presennol.

**Carwyn Jones**
**Prif Weinidog Cymru**